Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Adroddiad i'r:	**Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu**
Dyddiad y Cyfarfod:	**23ain Tachwedd 2022**
Lleoliad:	**Siambr y Cyngor / O Bell drwy Gynhadledd Fideo**
Teitl:	**Adroddiad Hunanasesu 2021/22**
Pwrpas yr Adroddiad:	**Er gwybodaeth i wneud yn siŵr bod y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu yn cael y wybodaeth ddiweddaraf ar y cynnydd wrth baratoi Adroddiad Hunanasesu 2021/22 gan gynnwys yr Adolygiad Blynyddol o Berfformiad a'r Amcanion Llesiant**
Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:	**Y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet ar gyfer Polisi, Perfformiad, Partneriaethau a Gwasanaethau Democrataidd**

Cefndir

Adroddwyd bod Rhan 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn disodli Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 gynt ac yn cyflwyno cyfundrefn berfformiad newydd ar gyfer Prif Gynghorau yn seiliedig ar Hunanasesu. (Atodir y Canllawiau ar gyfer Rhan 6 y Ddeddf yn Atodiad 1).

Bwriad y gyfundrefn berfformiad newydd yw adeiladu a chefnogi diwylliant lle mae cynghorau yn ceisio gwella a gwneud yn well yn barhaus ym mhopeth a wnânt, heb ystyried pa mor dda y maent yn perfformio eisoes. Mae'r Ddeddf yn disgwyl y bydd cynghorau bob amser yn ymdrechu i gyflawni mwy a cheisio sicrhau'r canlyniadau gorau i bobl a chymunedau lleol. Un ffordd o wneud hyn yw herio'r sefyllfa bresennol yn barhaus a gofyn cwestiynau ynghylch sut y maent yn gweithredu.

Mae'r Ddeddf yn cyflwyno 5 dyletswydd benodol ar gyfer Cynghorau

- Y ddyletswydd i adolygu perfformiad yn barhaus
- Y ddyletswydd i ymgynghori ar berfformiad
- Y ddyletswydd i adrodd ar berfformiad
- Y ddyletswydd i drefnu asesiad o berfformiad gan banel
- Y ddyletswydd i ymateb i adroddiad ar asesiad o berfformiad gan banel

Mae hunanasesiad yn canolbwyntio ar ganlyniadau yn hytrach na phrosesau a disgwylir i awdurdodau lleol arfer ymagwedd wahanol at asesu eu perfformiad i'r hyn ydoedd cynt. Bydd hyn yn gofyn am fwy o fyfyrio ar yr hunan.

Ers mis Mai 2022 bu Cyngor Sir Ceredigion yn cynnal rownd gyntaf y broses Hunanasesu ac mae'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu wedi chwarae rhan ganolog ynddi:

- Ar **15 Mehefin 2022** cyflwynwyd y broses Hunanasesu a ddatblygwyd i'w defnyddio yng Ngheredigion i'r Pwyllgor. (Mae dull y Cyngor yn defnyddio set o Brif Lwybrau Ymholi neu gwestiynau allweddol i helpu i ganolbwyntio ar ofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau).

- Ar **29 Gorffennaf 2022** cynhaliwyd gweithdy gyda'r Pwyllgor i gofnodi canfyddiadau Aelodau ar berfformiad y Cyngor a chyfleoedd i wella i'w bwydo i'r Matrics Hunanasesu. (Mae'r Matrics yn dabl sy'n cipio'r holl dystiolaeth, heriau'r dyfodol, y gweithredu arfaethedig a'r sgoriau).

- Ar **10 Awst 2022** cynhaliwyd gweithdy arall gyda'r Pwyllgor i adolygu'r sgoriau drafft a'r Matrics Prif Lwybrau Ymholi.

Ceir amserlen lawn o'r gweithgareddau yr ymgymerwyd â nhw i gefnogi'r Hunanasesu yn 2021/22 yn Atodiad 2 i gyfeirio ati.

Y Sefyllfa Bresennol
Ers hynny, defnyddiwyd y dystiolaeth a gasglwyd i gynhyrchu Adroddiad Hunanasesu, a geir yn Atodiad 3. Dyma'r allbwn allweddol o'r broses Hunanasesu ac mae'n cyflwyno'r modd y mae'r Cyngor yn perfformio ar hyn o bryd a'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd wrth symud ymlaen.

Mae Adroddiad Hunanasesu 2021/22 yn cyflawni gofynion:
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – i osod ac adolygu cynnydd yn erbyn ein Hamcanion Llesiant Corfforaethol
- Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 – y ddyletswydd i adolygu perfformiad yn barhaus, i ymgynghori ar berfformiad, i adrodd ar berfformiad, i drefnu asesiad o berfformiad gan banel ac i ymateb i adroddiad ar asesiad o berfformiad gan banel.

Mae cyfrifoldeb statudol ar y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i ystyried yr Adroddiad Hunanasesu a gwneud argymhellion ar y canfyddiadau a'r camau y mae'r Cyngor yn bwriadu eu cymryd. Ystyriwyd yr Adroddiad yn ei gyfarfod ar 27 Medi 2022 a chymeradwywyd yr adroddiad i fwrw ati i'w gyhoeddi. Ni wnaed argymhellion ffurfiol i newid y casgliadau neu'r camau y mae'r Cyngor yn bwriadu eu cymryd. Fodd bynnag, gofynnwyd am fân ddiwygiadau fformatio a chodwyd nifer o gwestiynau ar sut i wella'r rownd nesaf o adrodd. Cafodd y diwygiadau hyn eu gwneud ac fe'u nodir yn Atodiad 3. Yn dilyn cymeradwyaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio mae'r broses o gynhyrchu Adroddiad Hunanasesu 2021/22 wedi'i gwblhau yn awr ac ni ellir ei ddiwygio rhagor.

Camau Nesaf
Trefnwyd bod yr Adroddiad Hunanwerthuso yn mynd i'r Cabinet ar 6 Rhagfyr ac i'r Cyngor ar 15 Rhagfyr, cyn iddo gael ei gyflwyno i Weinidogion, Estyn ac Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ogystal â'i gyhoeddi ar y wefan.

Argymhelliad/Argymhellion: **Derbyn Adroddiad Hunanasesu 2021/22 gan gynnwys yr Adolygiad Blynyddol o Berfformiad ac Amcanion Llesiant**

Rheswm dros y penderfyniad: **Gwneud yn siŵr bod y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu yn cael y wybodaeth ddiweddaraf ar y cynnydd wrth baratoi Adroddiad Huanasesu 2021/22 gan gynnwys yr Adolygiad Blynyddol o Berfformiad ac Amcanion Llesiant**

Atodiadau: Atodiad 1 – Canllawiau ar Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Rhan 6
Atodiad 2 - Amserlen o'r gweithgareddau yr ymgymerwyd â nhw i gefnogi Hunanasesu 2021/22
Atodiad 3 - Adroddiad Hunanasesu Drafft 2021/22

Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Alun Williams (Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd)

Swyddog Adrodd: Rob Starr (Adrodd ar Ofal Cymdeithasol, Perfformiad a'r Tîm Ymchwil)

Dyddiad: 1 Tachwedd 2022